Swyddog Lles a Chynhwysiant

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00405E5RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Graddfa 6 (£30,060 - £32,654)
Oriau: 37 awr yr wythnos Tymor Ysgol + 5 HMS
Math o gytundeb: Swydd Parhaol i ddechrau Ionawr 2027

Rydym yn awyddus i benodi unigolyn ymroddgar a brwdfrydig i ategu gwaith proffesiynol athrawon trwy fod yn gyfrifol am ennyn diddordeb disgyblion mewn gweithgareddau dysgu ac arwain disgyblion i sefydlu llwybr dysgu unigol. Byddwch yn darparu cymorth ac arweiniad i bobl ifanc a'r rheini sy'n ymwneud â nhw o fewn yr Uned Gynhwysiad. Yn symud rhwystrau i ddysgu er mwyn hyrwyddo cyfranogi effeithiol; gwella dysgu unigol; codi dyheadau a chyflawni eu potensial.

Rydym yn falch o'n cymuned a'n disgyblion yma yn Ysgol Glan Clwyd, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog ac rydym yn chwilio am unigolyn sy'n rhannu ein disgwyliadau uchel o bob disgybl. Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol hapus a gofalgar ac mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â'r tîm.

Bydd rhaid i ymgeisydd llwyddiannus fod â sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu ardderchog gyda phrofiad o weithio gyda phobl ifanc ac a phrofiad a dealltwriaeth o egwyddorion datblygiad plentyn a phrosesau dysgu, ac yn enwedig, rhwystrau i ddysgu. Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac yn dangos ymrwymiad amlwg tuag at weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os hoffech fwy o fanylion am y swydd uchod, gellir cysylltu â'r ysgol ar 01745 582611.

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy wefan www.sirddinbych.gov.uk; mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais i gael eu hystyried.

Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn pythefnos o'r dyddiad cau, fe ddylech gymryd yn ganiataol nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Dyddiad Cau: **Dydd Llun 07/12/2026**

This Advert is for an Inclusion and Welfare Officer at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

CYNGOR SIR DDINBYCH SWYDD-DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd:	**Swyddog Lles a Chynhwysiant**
Graddfa:	**6**
Gwasanaeth:	**Addysg**
Maes Gwasanaeth:	**Ysgol Glan Clwyd**
Yn atebol i:	**Dirprwy Bennaeth (Lles a Chynhwysiant)**
Lefel Sgiliau Y Gymraeg	**Lefel 5**
Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi:	**03732**

Pwrpas y Swydd

Rôl allweddol wrth sicrhau llwyddiant disgyblaeth ysgol gyfan a chynhwysiad pob disgybl yn Ysgol Glan Clwyd.

Gweithio fel rhan o dîm yn yr Uned Gynhwysiad yn cefnogi disgyblion gyda heriau emosiynol ac ymddygiadol i sicrhau cynhwysiad a pharhad eu haddysg.

Ategu gwaith proffesiynol athrawon ac asiantaethau eraill drwy fod yn gyfrifol am ennyn diddordeb disgyblion mewn gweithgareddau dysgu y cytunwyd arnynt ac arwain disgyblion i sefydlu llwybr dysgu unigol.

Bydd hyn yn cynnwys sefydlu perthynas â disgyblion, cynllunio, paratoi a darparu gweithgareddau dysgu i unigolion/grwpiau, monitro disgyblion a'u hasesu, a chofnodi cynnydd a datblygiad disgybl. Byddant hefyd yn gyfrifol am reoli'r broses gyfeirio at asiantaethau eraill lle mae'n briodol.

Prif Gyfrifoldebau

Datblygu strategaethau i annog disgyblion i gofleidio dysgu ac i ddatblygu llwybrau dysgu realistig a chyfiawnadwy. Hefyd rhoi dulliau cefnogi ar waith lle mae'n briodol, ac os oes angen, cyfeirio am gymorth arbenigol.

Cyfrannu at brosesau a gweithdrefnau i wella presenoldeb drwy reoli gweinyddu problemau presenoldeb, gan gynnwys lefelau presenoldeb annerbyniol, ceisiadau am wyliau a gweithdrefnau mewn achosion o salwch, o fewn yr Uned Cynhwysiad yn benodol.

Dewis a pharatoi adnoddau sy'n angenrheidiol i arwain gweithgareddau dysgu, gan ystyried dulliau dysgu, diddordebau, iaith a chefndiroedd diwylliannol disgyblion. Cynhyrchu cynlluniau gwersi grŵp neu unigol, taflenni gwaith etc. a chefnogi dysgwyr i adnabod nodau a gwneud dewisiadau gwybodus. Creu a chytuno ar gynlluniau gweithredu gyda dysgwyr, sy'n amlinellu nodau'r mentora.

Datblygu a chynnal cyswllt priodol â theuluoedd a gofalwyr disgyblion sydd ag anghenion wedi'u hadnabod, a rhoi gwybodaeth iddynt am anghenion a chynnydd y disgybl, a sicrhau cefnogaeth gadarnhaol gan y teulu i'r disgybl. Cefnogi rôl y rheini mewn dysg disgybl a chyfrannu at/arwain cyfarfodydd â rhieni i roi cefnogaeth yn yr amgylchedd dysgu.

Sefydlu perthnasoedd adeiladol a chyfathrebu ag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill, i gefnogi llwyddiant a chynnydd disgyblion.

Gweithio o fewn polisïau disgyblu i ragweld dicter a rheoli ymddygiad yn adeiladol, gan hyrwyddo hunanreolaeth ac annibyniaeth.

Cyfrannu at raglen dal i fyny i ddysgwyr sy'n dechrau yn yr ysgol neu'n dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnodau o absenoldeb (gan gynnwys yn ystod cyfnodau o absenoldeb) ac adolygu eu cynnydd a'u llwyddiannau.

Cynorthwyo staff i adnabod disgyblion sy'n dangos arwyddion cynnar o ymddieithrio a'r rheini y byddai help o fudd iddynt i oresgyn rhwystrau i ddysgu.

Darparu gwasanaeth diduedd i ddysgwyr a gweithredu fel eiriolwr iddynt pan fo angen.

Cyflawni'r dyletswyddau gweinyddol sy'n berthnasol i rôl swyddog, gan gynnwys cynllunio, cadw cofnodion, bas data ac adroddiadau, h.y. SIMS.

Cefnogi nosweithiau rhieni a digwyddiadau eraill yr ysgol lle mae rôl benodol i'w chwarae o dan gyfarwyddyd yr Uwch Dîm Arwain.

Hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg yn effeithiol o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.
Goruchwylio dosbarth mewn argyfwng, os oes angen.
Gweinyddu, cofnodi a goruchwylio profion arholiadau lle mae'n briodol.
Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau yn ôl dymuniad y Pennaeth.

Bydd cyfrifoldebau penodol ychwanegol i swyddogion unigol o fewn y tîm;

Cyfrannu at y broses Opsiynau CA4.
Cyfrannu at gynllunio a gweithredu cwricwlwm amgen.
Meithrin a chynnal perthynas waith gref gyda'r clwstwr o ysgolion cynradd sy'n bwydo Ysgol Glan Clwyd.
Cyfrannu at drefnu dyddiau a gweithgareddau pontio i ddisgyblion Bl 6
Cefnogi cwricwlwm amgen 14-19 gyda phartneriaeth allanol

Adnoddau / Offer / Deunyddiau

Unrhyw offer sy'n benodol i ddefnydd yr Uned

Goruchwylio / Rheoli Pobl

Yn gyfrifol am oruchwylio disgyblion mewn ystafell ddosbarth, mewn grwpiau ac yn unigol.

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Sgiliau rhifedd/llythrennedd ardderchog

NVQ Lefel 4 neu gymhwyster/profiad cyfwerth

Dylai deiliaid swydd fod â phrofiad diweddar o weithio gyda phlant a phobl ifanc ac wedi cymryd diddordeb eiddgar mewn cefnogi dysgu, lles a llwyddiannau naill mewn rôl â thâl neu wirfoddol mewn cyd-destun addysg, ieuenctid neu ofal cymdeithasol

Gwybodaeth weithredol lawn am bolisïau/codau ymarfer/deddfwriaeth berthnasol

Gwybodaeth weithredol am y cwricwlwm cenedlaethol a rhaglenni dysgu perthnasol eraill

Y gallu i gynllunio gweithredoedd effeithiol i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni

Deall amrediad y gwasanaethau/darparwyr cefnogaeth

Y gallu i hunanwerthuso anghenion sy'n datblygu a chwilio am gyfleoedd i ddysgu

Ymwybyddiaeth o weithdrefnau cyfrinachedd a chadw atynt

Ymwybyddiaeth o bolisïau Amddiffyn Plant

Gallu cysylltu'n dda â phlant ac oedolion

Gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm

Hanes profedig o hyfforddiant proffesiynol parhaus

Amodau Gwaith Arbennig

Ar adegau, yn gweithio gyda disgyblion a theuluoedd bregus.

Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; clirio DBS, 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth modern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelwch yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi yn ystod eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion camfanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff camfanteisio ei adnabod.

Gweledigaeth / Cyd-destun

Crëwyd y swydd hon yn dilyn ail strwythuro cefnogaeth lles a chynhwysiad o fewn yr ysgol.

CYNGOR SIR DDINBYCH SWYDD-DDISGRIFIAD	
Teitl y Swydd:	**Swyddog Lles a Chynhwysiant**
Graddfa:	**6**
Gwasanaeth:	**Addysg**

Maes Gwasanaeth:	**Ysgol Glan Clwyd**
Yn atebol i:	**Dirprwy Bennaeth (Lles a Chynhwysiant)**
Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi:	**03732**

Pwrpas y Swydd

Rôl allweddol wrth sicrhau llwyddiant disgyblaeth ysgol gyfan a chynhwysiad pob disgybl yn Ysgol Glan Clwyd.

Gweithio fel rhan o dîm yn yr Uned Gynhwysiad yn cefnogi disgyblion gyda heriau emosiynol ac ymddygiadol i sicrhau cynhwysiad a pharhad eu haddysg.

Ategu gwaith proffesiynol athrawon ac asiantaethau eraill drwy fod yn gyfrifol am ennyn diddordeb disgyblion mewn gweithgareddau dysgu y cytunwyd arnynt ac arwain disgyblion i sefydlu llwybr dysgu unigol.

Bydd hyn yn cynnwys sefydlu perthynas â disgyblion, cynllunio, paratoi a darparu gweithgareddau dysgu i unigolion/grwpiau, monitro disgyblion a'u hasesu, a chofnodi cynnydd a datblygiad disgybl. Byddant hefyd yn gyfrifol am reoli'r broses gyfeirio at asiantaethau eraill lle mae'n briodol.

Prif Gyfrifoldebau

Datblygu strategaethau i annog disgyblion i gofleidio dysgu ac i ddatblygu llwybrau dysgu realistig a chyfiawnadwy. Hefyd rhoi dulliau cefnogi ar waith lle mae'n briodol, ac os oes angen, cyfeirio am gymorth arbenigol.

Cyfrannu at brosesau a gweithdrefnau i wella presenoldeb drwy reoli gweinyddu problemau presenoldeb, gan gynnwys lefelau presenoldeb annerbyniol, ceisiadau am wyliau a gweithdrefnau mewn achosion o salwch, o fewn yr Uned Cynhwysiad yn benodol.

Dewis a pharatoi adnoddau sy'n angenrheidiol i arwain gweithgareddau dysgu, gan ystyried dulliau dysgu, diddordebau, iaith a chefndiroedd diwylliannol disgyblion. Cynhyrchu cynlluniau gwersi grŵp neu unigol, taflenni gwaith etc. a chefnogi dysgwyr i adnabod nodau a gwneud dewisiadau gwybodus. Creu a chytuno ar gynlluniau gweithredu gyda dysgwyr, sy'n amlinellu nodau'r mentora.

Datblygu a chynnal cyswllt priodol â theuluoedd a gofalwyr disgyblion sydd ag anghenion wedi'u hadnabod, a rhoi gwybodaeth iddynt am anghenion a chynnydd y disgybl, a sicrhau cefnogaeth gadarnhaol gan y teulu i'r disgybl. Cefnogi rôl y rheini mewn dysg disgybl a chyfrannu at/arwain cyfarfodydd â rhieni i roi cefnogaeth yn yr amgylchedd dysgu.

Sefydlu perthnasoedd adeiladol a chyfathrebu ag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill, i gefnogi llwyddiant a chynnydd disgyblion.

Gweithio o fewn polisïau disgyblu i ragweld dicter a rheoli ymddygiad yn adeiladol, gan hyrwyddo hunanreolaeth ac annibyniaeth.

Cyfrannu at raglen dal i fyny i ddysgwyr sy'n dechrau yn yr ysgol neu'n dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnodau o absenoldeb (gan gynnwys yn ystod cyfnodau o absenoldeb) ac adolygu eu cynnydd a'u llwyddiannau.

Cynorthwyo staff i adnabod disgyblion sy'n dangos arwyddion cynnar o ymddieithrio a'r rheini y byddai help o fudd iddynt i oresgyn rhwystrau i ddysgu.

Darparu gwasanaeth diduedd i ddysgwyr a gweithredu fel eiriolwr iddynt pan fo angen.

Cyflawni'r dyletswyddau gweinyddol sy'n berthnasol i rôl swyddog, gan gynnwys cynllunio, cadw cofnodion, bas data ac adroddiadau, h.y. SIMS.

Cefnogi nosweithiau rhieni a digwyddiadau eraill yr ysgol lle mae rôl benodol i'w chwarae o dan gyfarwyddyd yr Uwch Dîm Arwain.

Hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg yn effeithiol o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Goruchwylio dosbarth mewn argyfwng, os oes angen.

Gweinyddu, cofnodi a goruchwylio profion arholiadau lle mae'n briodol.

Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau yn ôl dymuniad y Pennaeth.

Bydd cyfrifoldebau penodol ychwanegol i swyddogion unigol o fewn y tîm;

Cyfrannu at y broses Opsiynau CA4.

Cyfrannu at gynllunio a gweithredu cwricwlwm amgen.

Meithrin a chynnal perthynas waith gref gyda'r clwstwr o ysgolion cynradd sy'n bwydo Ysgol Glan Clwyd.

Cyfrannu at drefnu dyddiau a gweithgareddau pontio i ddisgyblion Bl 6

Cefnogi cwricwlwm amgen 14-19 gyda phartneriaeth allanol

Adnoddau / Offer / Deunyddiau
Unrhyw offer sy'n benodol i ddefnydd yr Uned
Goruchwylio / Rheoli Pobl
Yn gyfrifol am oruchwylio disgyblion mewn ystafell ddosbarth, mewn grwpiau ac yn unigol.
Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Sgiliau rhifedd/llythrennedd ardderchog

NVQ Lefel 4 neu gymhwyster/profiad cyfwerth

Dylai deiliaid swydd fod â phrofiad diweddar o weithio gyda phlant a phobl ifanc ac wedi cymryd diddordeb eiddgar mewn cefnogi dysgu, lles a llwyddiannau naill mewn rôl â thâl neu wirfoddol mewn cyd-destun addysg, ieuenctid neu ofal cymdeithasol

Gwybodaeth weithredol lawn am bolisïau/codau ymarfer/deddfwriaeth berthnasol

Gwybodaeth weithredol am y cwricwlwm cenedlaethol a rhaglenni dysgu perthnasol eraill

Y gallu i gynllunio gweithredoedd effeithiol i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni

Deall amrediad y gwasanaethau/darparwyr cefnogaeth

Y gallu i hunanwerthuso anghenion sy'n datblygu a chwilio am gyfleoedd i ddysgu

Ymwybyddiaeth o weithdrefnau cyfrinachedd a chadw atynt

Ymwybyddiaeth o bolisïau Amddiffyn Plant

Gallu cysylltu'n dda â phlant ac oedolion

Gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm

Hanes profedig o hyfforddiant proffesiynol parhaus

Amodau Gwaith Arbennig

Ar adegau, yn gweithio gyda disgyblion a theuluoedd bregus.

Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; clirio DBS, 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth modern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelwch yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi yn ystod eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion camfanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff camfanteisio ei adnabod.

Gweledigaeth / Cyd-destun

Crëwyd y swydd hon yn dilyn ail strwythuro cefnogaeth lles a chynhwysiad o fewn yr ysgol.